

2. POBI FY WAL

Bu'r myfyrwyr ar yr uned 'Pobi fy Wal' yn gweithio yn Llundain gydag Alexandros Kallegias, sy'n Uwch-beiriannydd Pensaernïol a gafodd eu cyflwyno i'r cysyniad o wal drwy gyfrifiannu pensaernïol a dylunio cynhyrchiol. Y dasg oedd creu wal drwy ystod o arbrofion digidol a 'phobi' eu fersiwn nhw o'r wal ar gyfer unrhyw fan posibl.

“Roedd yn brofiad gwych, dysgais gymaint mewn pythefnos, roedd yn her ond roedd y canlyniad yn wych ac roedd gweithio yn Llundain yn ysbrydoliaeth ar gyfer fy nyheadau ar gyfer y dyfodol.”

JUSTYNA MATUSZEWSKA

(BSc mewn Astudiaethau Pensaernïol)
uned 'Pobi fy Wal', Stiwdio Fertigol

“Rydw i'n dwli ar y Stiwdio Fertigol oherwydd mae'n dod â phobl ynghyd i weithio ar brosiectau amrywiol. Mewn cyfnod o ynysigrwydd byd-eang cynyddol, mae'r myfyrwyr hyn yn ein hatgoffa o'r hyn sydd yn bosib ei gyflawni drwy gydweithio creadigol. Mae angen i ni gadw hyn mewn cof.”

ATHRO CHRIS TWEED

Pennaeth Ysgol
Pensaernïaeth Cymru

3. MAKE YOURSELF AT HOME

The unit 'Make yourself at home' was led by Dr Mhairi McVicar from the Welsh School of Architecture and local artist Chris Williams. Students were asked to make prototypes of furniture for the new Grange Pavilion, a community building in Grangetown opening in 2020. The beech wood used to make the prototypes was donated by Cowbridge based charity The Twt Beech Project, that is following and documenting the life of a much-loved felled tree after it was removed.

“Roedd y Stiwdio Fertigol yn brofiad gwerth chweil i mi a phawb arall a gymerodd ran. Roedd y cyfle i weithio ar brosiect byw ym Mhafiliwn Grangetown a chael adborth gan gleientiaid a defnyddwyr yn brofiad anhygoel o werthfawr i'r myfyrwyr. Rydw i'n edrych ymlaen at weld y dodrefn a ddyluniwyd gan y myfyrwyr yn cael eu defnyddio gan y gymuned yn y pafiliwn yn y dyfodol agos.”

CHRIS WILLIAMS

Artist Gweithredol ac aelod o Gymdeithas
Frenhinol Cerflunwyr Prydain, Stiwdio
Fertigol, 'Gwnewch eich hun yn gartrefol

BETH YW STIWDIO FERTIGOL?



Mae Stiwdio Fertigol yn brosiect dwys a chreadigol sy'n cael ei ariannu gan Ysgol Pensaernïaeth Cymru. Mae'n cynnwys nifer o unedau dylunio gwahanol, sy'n archwilio, arbrofi a damcaniaethu ynghylch natur a ffiniau maes pensaernïaeth.

Mae pob myfyriwr ym mlwyddyn gyntaf ac ail flwyddyn rhaglen BSc yr ysgol yn cael y cyfle i sefydlu synergeddau academiaidd ar y cyd gyda rhwydwaith eang o bartneriaid cenedlaethol a rhyngwladol. Mae cysylltiadau'r gorffennol yn cynnwys; dylunwyr, artistiaid, curaduron, gwyddonwyr, crefftwyr, ymgynghorwyr busnes, gweithredwyr, sefydliadau a chymunedau lleol. Mae'r hyn y maent yn ei gyflawni yn cael ei arddangos mewn arddangosfa gyffredinol ar ddiwedd y profiad sy'n ein galluogi i ddathlu a myfyrio ar y profiad dysgu gyda'r Stiwdio Fertigol.

Drwy gymryd rhan mewn gweithgareddau y tu hwnt i feini prawf dysgu craidd ein rhaglen BSc, mae'r Stiwdio Fertigol yn cynnig cyfleoedd i gyfoethogi ac amrywio profiad a sgiliau ein myfyrwyr. Mae'r gwaith y mae'r myfyrwyr yn ei wneud gyda'r uned ddewisol yn ehangu eu portffolio dylunio ac hefyd yn eu helpu i adeiladu ac ehangu eu rhwydwaith rhyngddisgyblaethol eu hun o gyfeiriadau a thystiolaeth ymarferol.

Yn anad dim, mae'r Stiwdio Fertigol yn brofiad hwylus a chynhyrfus i bob un sy'n rhan ohono.

UNEDAU STIWDIO FERTIGOL ENGHREIFFTIOL:

1. DYLUNWYR Y DYFODOL

Bu myfyrwyr yr uned 'Dylunwyr y Dyfodol' yn gweithio gyda Alessandro Columbano, Uwch-ddarlithydd yn Ysgol Pensaernïaeth a Dylunio Birmingham ac Anna Parker o Intervention Architecture i greu cyfres o becynnau chwarae neu strwythurau tegan mawr defnyddiadwy a chysylltiedig y byddai defnyddwyr o bob oedran yn gallu eu rhoi at ei gilydd i greu awyrgylch rhyng-gysylltiedig; dihangfa chwarae i'r cyhoedd.

“Roedd Stiwdio Fertigol yn un o'r rhesymau y dewisais Brifysgol Caerdydd. Roeddwn i'n edrych ar yr hyn yr oedd y Prifysgolion eraill yn eu cynnig ac roeddwn i'n teimlo fel bod hwn yn gyfle unigryw na fyddwn yn gallu cael fel arall”

ANGELINE YEE
(BSc mewn Astudiaethau Pensaernïol)
uned 'Dylunwyr y Dyfodol', Stiwdio Fertigol

